# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Donna Watts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd dros Zoom
**Nos Iau 17 Rhagfyr 2020**

**PRESENNOL:**
**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Griff Morris
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Bleddyn Williams
Y Cynghorydd Mary Jones

**Cyngor Sir**
Y Cynghorydd Rheinallt Puw
Y Cynghorydd Paul Rowlinson

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Ann Williams

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Godfrey Northam
Y Cynghorydd Michael Williams

1. **Croesawyd** pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Einir Williams.
   **Ymddiheuriadau** –gan y Cyngr. Pearl Evans, Dyfrig Jones a Linda Brown.

**2. Datgan Diddordeb**
Eitem 6-Partneriaeth Ogwen: Y Cyng. Neville Hughes.

**3. Materion Brys**
Llwybr o Gwernydd i Abercaseg – y llwybr wedi dirywio yn ofnadwy. Y Cyng. Paul Rowlinson wedi bod yn trafod y mater gyda Gerallt Jones, y swyddog llwybrau yn y gorffennol, ac am ofyn iddo ail-edrych ar y sefyllfa.
Llinellau melyn ym Mhant Dreiniog – llinellau wedi eu gosod oherwydd y loriau oedd yn arfer ymweld a C L Jones. Y Cyng. Rheinallt Puw am holi CL Jones a Cyngor Gwynedd i weld os yw'n bosib eu didymu.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2020.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1** Arwyddion newydd Ogwen Bank – Mae'r arwyddion wedi cael eu tynnu lawr, ond angen i'r polion ddod lawr hefyd.
**5.2** Cyffordd A5 ger Copa – problem gwelededd gan bod coeden wedi gordyfu yn gardd 87 Stryd Fawr. Y coed wedi eu torri, ond dal yn rhy uchel. Y Clerc i holi unwaith eto.
**5.3** Lloches bws Sgwar Rachub a Braichmelyn –y Clerc i drefnu cyn gynted a bo modd.
**5.4** Ffordd Coetmor, cyflwr y lôn yn ofnadwy, yn enwedig wrth y llyfrgell. Llawer o dyllau angen eu llenwi. Gwaith 'patcho' wedi ei wneud, ond ddim digon da.

**5.5** Stryd Fawr, Rachub – o Capel Carmel at y Sgwâr. Y ffordd angen sylw.
**5.6** Rhos y Nant – dŵr yn sefyll, angen sylw i'r draeni. Dim ymateb hyd yn hyn. Y Cyng. Rheinallt Puw am holi Cyngor Gwynedd am ddiweddariad.
**5.7** CCTV Stryd Fawr – y Clerc i fynd ar ôl Cyngor Gwynedd.
**5.8** Parc Meurig – llechi gyda cerfluniau cymeriadau Llyfr Mawr y Plant. Angen eu paentio/adnewyddu. Y Cyng. Rheinallt Puw i'w drafod gyda swyddog LleChi - ar y gweill.
**5.9** Arwyddion stryd – arwydd ar gyfer Sgwar Buddug wedi ei gam-sillafu ac y Cyngor yn awyddus i gael arwydd ar gyfer Lôn Pâb ac Allt Caffi hefyd. Y Clerc i holi unwaith eto.

**6. Adroddiad Partneriaeth Ogwen**
Adroddwyd bod Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Partneriaeth Ogwen wedi ei gynnal, dros Zoom, nos Fercher 9fed o Ragfyr 2020. Y Swyddogion wedi eu ail-ethol am flwyddyn arall. Copïau o'r Adroddiad Blynyddol a'r Adroddiad Cymunedol i'w hanfon at bawb yn fuan.

**7. Archeb drafft 2021-22**
Pawb wedi derbyn copi o'r archeb sydd wedi ei ddrafftio gan y Pwyllgor Cyllid, ac yn hapus i dderbyn eu hargymellion. Angen ail-edrych a phenderfynu ar yr archeb yn y cyfarfod mis Ionawr.

**8. Ymgynghoriad Addysg ôl-16**
Yn dilyn yr ohebiaeth a dderbyniwyd yn ein cyfarfod diwethaf, llawer o'r aelodau wedi mynychu'r sesiynau ymgynghori.
Mae'r Cyngor Cymuned yn cefnogi'r syniad o gyfundrefn addysg ôl-16 sydd yn rhoi anghenion holl ddysgwyr yn ganolog i'r ddarpariaeth.
Rydym yn awyddus iawn i gadw'r chweched dosbarth yn Nyffryn Ogwen, ond yn cefnogi'r syniad o deithio rhwng ysgolion, ond bod rhai pynciau ar gael ymhob ysgol ar hyd Gwynedd. Mae'n rhaid i unrhyw gynllun fod y gyson dros yr ardal i gyd, a chadw cnewyllyn ym mhob ysgol. Mae angen datblygu'r syniad o gael gwahanol bynciau mewn gwahanol ysgolion, sydd ar gael i bawb.

**9. Toriadau gwair Mynwent Coetmor**
Y Cyngor yn awyddus i dreialu trefniant 'torri a chasglu' yn y fynwent, ar gyfer y toriadau Ebrill a Mai, ac anghofio (am rwan) y dau doriad ychwanegol eraill yn y plwy.

**10. Maes parcio Gerlan**
Dim penderfyniad wedi dod ynglŷn a'r cais am fenthyciad i'r Llywodraeth. Wedi cael ymholiadau am fwy o fanylion ac eglurhad am ambell eitem.

**11. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Rhagfyr 2020'
**11.1** E-bost gan Parc Cenedlaethol Eryri – ymgynghoriad Cynllun Llesiant a Chorfforaethol-amcanion gwella a llesiant ar gyfer 2021-26. Derbyniwyd yr ohebiaeth a phenderfynwyd bydd yr aelodau yn ymateb fel unigolion.
**11.2** Bwletin misol Un Llais Cymru – derbyn yr ohebiaeth.
**11.3** E-bost gan Llywodraeth Cymru-swm priodol o dan Adran 137 (4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gwariant Adran 137 y terfyn ar gyfer 2021-22 = £8.41. Nodwyd yr ohebiaeth.

**11.4** E-bost gan Archwilio Cymru – amserlen ar gyfer y trefniadau archwilio newydd. Cyngor Cymuned Bethesda: 2020-21 – archwiliad sylfaenol. 2021-22 – archwiliad sylfaenol. 2022-23 – archwiliad llawn.
**11.5** Ebost SLR Consulting Limited- cyhoeddusrwydd ac ymgynghori cyn cyflwyno cais cynllunio ar ran Breedon Southern Limited (Welsh Slate)
**11.6** Ebost gan Un Llais Cymru – rhestr o'r sesiynau hyfforddiant sydd ar gael ym mis Ionawr.

**12. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**
**C19/1203/13/DT**

| | |
|---|---|
| Heulwen, 23 Ystad Coetmor, Bethesda | Cais ar gyfer codi estyniad deulawr gyda tô grib yng nghefn yr eiddo<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau. |

**C20/0018/13/LL**

| | |
|---|---|
| Tir ger Llain y Pebyll, Bethesda | Codi 7 annedd preswyl ar gyfer yr henoed ynghyd â llecynnau parcio a man troi.<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**C20/0716/13/LL**

| | |
|---|---|
| 1 Lon Sarnau, Bethesda | Cais ar gyfer trosi modurdy i anecs is-raddol i'r eiddo adnabyddir fel '1 Lon Sarnau, Ffordd y Stesion, Bethesda'<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**C20/0152/13/LL**

| | |
|---|---|
| 4 Rhes Ogwen | Cais ar gyfer trosi is-lawr eiddo i uned breswyl hunan gynhaliol ynghŷd a rhannu modurdy cefn i fodurdy a phorth car<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**C20/0622/13/LL**

| | |
|---|---|
| Pen Bre Ffordd Y Mynydd, Rachub | Creu croglofft o fewn yr annedd bresennol ynghŷd a gosod ffenestri tô<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**C20/0819/13/DT**

| | |
|---|---|
| 6 Ffordd Gerlan, Gerlan | Estyniad i'r gegin presennol a chreu balconi uwchben yr estyniad<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**C20/0878/13/LL**

| | |
|---|---|
| Becws Cae Groes, Ffordd Tanybwlch, Rachub | Estyniad llawr cyntaf i'r becws<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**C20/0805/13/LL**

| | |
|---|---|
| Tir ger Gwernydd, Gerlan | Cais ar gyfer adeiladu maes parcio<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**<u>Ceisiadau</u>**

**C20/0978/13/DT**

| | |
|---|---|
| 28 Allt Pen y Bryn, Bethesda | Cais ar gyfer codi estyniad unllawr ochr i'r eiddo<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad. |

**C20/1012/13/DT**

| | |
|---|---|
| Llais Afon, 2 Bron Arfon, Rachub | Estyniad unllawr yn y cefn<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad. |

**13. Taliadau**

<u>Awdurdodwyd y canlynol</u>

| | |
|---|---|
| Cyflogau (Rhagfyr) | £342.27 |
| CThEM (Rhagfyr) | £85.60 |
| LITE-goleuadau Nadolig newydd | £7746.00 |
| Pritchard's-coeden Nadolig | £120.00 |